ATODLEN 1

Diwygiadau o ganlyniad i gychwyn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**Rheoliadau Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) (Cymru) 2015**

**38.**—(1) Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Methiant Busnes) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3) (enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli), yn y diffiniad o "darparwr" ("*a provider*"), ar ôl "wedi ei gofrestru o dan" mewnosoder "Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 mewn cysylltiad â gwasanaeth rheoleiddiedig (o fewn ystyr y Ddeddf honno), neu berson sydd wedi ei gofrestru o dan".

(**1**) O.S. 2015/1920 (Cy. 286).